



CARCHAR EI MAWRHYDI
ABERTAWE

ADRODDIAD BLYNYDDOL
2013 – 2014

DYDDIAD: Cyflwynwyd Awst 2014. (Yn ymwneud â'r cyfnod diwedd Mai 2013 – diwedd Mai 2014)

ADRAN 1 Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

1.1

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Carchar a Chanolfan Allgludo Mewnfudwyr gael eu monitro gan Fwrdd Annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Garchardai o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r Carchar neu ganolfan wedi'i leoli.

Mae gan y Bwrdd y cyfrifoldebau penodol canlynol:

- (1) Bodloni ei hun fod y rheini sy'n cael eu dal yn y ddalfa o fewn ei garchar yn cael eu trin yn ddyngarol a chyfiawn a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn rhai digonol.
- (2) Hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog i'r hwn y mae wedi dirprwyo awdurdod fel y barno'n addas, yn brydlon o unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r Carchar wedi cyrraedd y safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith y mae'r rhain yn ei gael ar y rheini yn ei Ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau'r hawl i weld pob carcharor a phob rhan o'r Carchar a hefyd cofnodion carcharorion.

ADRAN 2

CYNNWYS

- ADRAN 1 - Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol**
- ADRAN 2 - Cynnwys**
- ADRAN 3 - Disgrifiad o'r Carchar**
- ADRAN 4 - Crynodeb**
- ADRAN 5 - Yr Adroddiad**
Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Addysg, Dysgu a Sgiliau
Gofal iechyd ac Iechyd Meddwl
Gweithgaredd buddiol
Ailsefydlu
Carcharu diogelach
Cadw ar wahân, Gwahanu a Gofal
Dyfarniadau
Gwasanaethau Preswyl
- ADRAN 6 - Meysydd eraill o waith y Carchar**
Derbyn a Sefydlu
Caplaniaeth
Caplaniaeth Gymunedol
- ADRAN 7 - Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol**
Y Bwrdd Monitro Annibynnol yn Abertawe
Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol
Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd
Ystadegau'r Bwrdd

ADRAN 3 Disgrifiad o'r Carchar

3.1 Carchar lleol Categori B yw Carchar Ei Mawrhydi Abertawe, sy'n dal oedolion ac oedolion ifanc gwrywaidd. Mae carcharorion sy'n oedolion naill ai wedi cael eu cadw yn y ddalfa o'r llysoedd tra byddant yn disgwyl treial, neu maent yn garcharorion wedi eu dedfrydu sy'n gwasanaethu llai na dwy flynedd fel arfer. Carcharorion ar remand yw pawb o'r oedolion ifanc.

3.2 Adeiladwyd Carchar Ei Mawrhydi Abertawe yn 1861 ac mae'r bloc preswyl heb gael ei newid yn strwythurol er bod moderneiddio ac uwchraddio wedi digwydd. Cafodd Abertawe ei gynllunio i ddal 219 o garcharorion ond oherwydd bod poblogaeth carchardai'n cynyddu'n barhaus, mae gan Abertawe ar hyn o bryd gynhwysedd gweithredol o 455.

3.3 Mae parch at unigolion yn holl bwysig yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe lle mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion yn allweddol i lwyddiant y carchar. Mae staff yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal amgylchedd sy'n sefydlog, ac yn fwy na dim, yn ddiogel. Y nod yw i'r carchar, trwy'r rhaglenni a'r gweithgareddau amrywiol a chadarnhaol sydd ar gael, alluogi carcharorion i fynd i'r afael â'u haildroseddu, a thrwy hynny ei leihau, a'u cynorthwyo gydag ailsefydlu. Cyflawnir hyn trwy bartneriaethau effeithiol gydag amrywiaeth helaeth o sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol.

CRYNODEB

CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

4.1.1 Mae presenoldeb gwael yn y cyfarfodydd yn dal i fod yn destun pryder. Golyga hyn nad ymdrinnir â nifer o bwyntiau sy'n codi mewn cyfarfodydd ac y cânt eu gohirio.

4.1.2 Mae bwydlenni llun wedi cael eu cyflwyno i garcharorion nad ydynt yn siarad Saesneg ac mae'r llawlyfr sefydlu ar gyfer y gampfa a'r wybodaeth codi a chario am gael eu hargraffu mewn gwahanol ieithoedd.

4.1.3 Mae imam bellach yn ymweld â charcharorion Mwslimaidd bob wythnos.

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

4.2.1 Cafwyd blwyddyn lwyddiannus i'r Adran, a arweiniodd at gyrraedd 88% o dargedau Llywodraeth Cymru.

4.2.2 Cafodd Cynllun Darllen Ymddiriedolaeth Shannon ei roi ar waith ym mis Medi 2013.

4.2.3 Sefydlwyd y system Campws Rhithiol ym mis Mawrth 2014 a dylai hyn helpu carcharorion i gael gwaith cyflogedig ar ôl cael eu rhyddhau.

4.2.4 Mae'r Siop Argraffu newydd bellach ar waith. Bydd yn hyfforddi carcharorion at gymhwyster Lefel 2 mewn Cyhoeddi Pen Desg.

4.2.5 Derbyniodd yr Adran Wobr Aur am ei chyfraniad at Brosiect Cynaliadwyedd Ewropeaidd.

4.2.6 Mae'r nifer o leoedd sydd ar gael mewn gweithdai'n cynyddu yn unol â'r Ffyrdd Newydd o Weithio. Mae amrywiaeth o gymwysterau NVQ yn cael eu cynnig yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe a'r bwriad yw cynyddu'r nifer o gymwysterau a gynigir.

GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

4.3.1 Y llynedd adroddodd y Bwrdd ei bryderon ynghylch y gallu i gael at wasanaethau optegyddol a deintyddol. Nid oes dim wedi newid. Gall rhestrau aros fod yn annerbyniol o hir a gall ymweliadau gan y gweithwyr iechyd hyn ymddangos fel petaent yn anaml a di-drefn.

GWEITHGAREDD BUDDIOL

4.4.1 Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i sicrhau bod cymaint o garcharorion ag sy'n bosibl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd buddiol. Mae nifer o brosiectau newydd a lleoedd gwaith ar gael erbyn hyn.

4.4.2 Rhoddir cyfle i garcharorion ennill cymwysterau a sgiliau a ddylai eu helpu i gael gwaith cyflogedig ar ôl cael eu rhyddhau.

AILSEFYDLU

4.5.1 Mae'r Bwrdd yn siomedig fod y cwrs rheoli dicter wedi cael ei golli yn sgil ailstrwythuro.

4.5.2 Mae PACT Cymru yn treialu dau gwrs yn y carchar sy'n seiliedig ar berthnasoedd.

CARCHARU DIOGELACH

4.6.1 Mae'r Bwrdd yn drist iawn o adrodd am farwolaeth arall yn y ddalfa yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe.

4.6.2 Mae pryder nad oes byth le addas i'r gwrandawyr gynnal cyfweiliadau cyfrinachol.

4.6.3 Darganfu Archwiliad Carcharu Diogelach ym mis Hydref 2013 nad yw ansawdd dogfennau Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) yn cyrraedd y safon.

CADW AR WAHÂN

4.7.1 Mae'r Bwrdd yn dal i fod â phryderon nad yw aelodau bob amser yn cael gwybod am adolygiadau cadw ar wahân, ac er gwaethaf pob ymdrech a wneir gan aelodau i fod yn bresennol, mae'r rhain yn aml yn cael eu haildrefnu ar rybudd byr iawn neu hyd yn oed heb i unrhyw rybudd gael ei roi.

4.7.2 Mae 31% o gynnydd wedi bod yn y nifer o ddyfarniadau ac o ganlyniad mae cynnydd sylweddol yn y nifer o garcharorion sy'n cael eu cadw ar wahân.

4.7.3 Bu 26% o gynnydd yn y defnydd o rym yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

GWASANAETHAU PRESWYL

4.8.1 Mae'r Bwrdd yn codi pryderon eto ynghylch gorlenwi. Mae Abertawe'n dal i fod yn un o'r carchardai mwyaf gorlawn ym Mhrydain.

4.8.2 Mae gan y Rheolwr Arlwy a'i staff le i fod yn falch ohonynt eu hunain am gadw eu gradd hylendid pum seren am flwyddyn arall eto. Wrth ymweld â'r carchar fe wnaeth rheolwr NOMS Cymru sylw ar safonau uchel arlwy yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe.

MARWOLAETH YN Y DDALFA

4.9.1 Mae'n siomedig a thrist iawn gorfod adrodd bod marwolaeth yn y ddalffa wedi digwydd unwaith eto.

Gan nad yw'r Crwner wedi adrodd ar y digwyddiad hwn eto byddai'n amhriodol gwneud sylw pellach ar y mater hwn.

Bydd y Bwrdd yn monitro'n ofalus sut y bydd unrhyw argymhellion posibl gan yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaethau Prawf a Chrwner Ei Mawrhydi yn cael eu gweithredu, yn y gobaith o rwystro rhagor o farwolaethau.

Geiriau o Ganmoliaeth

4.9.2 Ers cyflwyno'r MTT mae ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud i gynyddu'r nifer o leoedd gwaith a lleoedd addysg yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe a hynny gyda chryn lwyddiant. Mae'n her barhaus oherwydd y lle cyfyng sydd ar gael o fewn y carchar. Fodd bynnag, mae mwy o garcharorion bellach yn cael cyfle i ennill sgiliau a all fod o ddefnydd iddynt ar ôl cael eu rhyddhau. Gobeithir y gall hyn eu helpu i gael gwaith cyflogedig ac felly lleihau aildroseddu.

Pryderon

4.9.3 Mae'r angen parhaus i wneud arbedion wedi bod yn her. Er bod y Bwrdd yn teimlo bod y Llywodraethwr a'r Staff wedi llwyddo ac wedi mynd i'r afael â hyn yn effeithiol, mae pryderon y gallai toriadau ariannol pellach ynghyd â lleihad mewn staff gael effaith difrifol a niweidiol ar fywydau carcharorion a gallu staff i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Bydd hefyd yn cael effaith negyddol ar forâl staff, sydd eisoes yn isel, yn rhannol, oherwydd y newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd yn y carchar yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

4.9.4 Mae'r nifer o ddyfarniadau wedi parhau i godi eleni. Mae'r Bwrdd yn bryderus bod y defnydd o Gymelliadau a Breintiau a Enillir yn anghyson ac yn gyfyngedig.

PRYDERON Y FLWYDDYN FLAENOROL

4.9.5 Er gwaethaf pryderon cynyddol ynghylch gallu mynd at yr optegydd y llynedd, nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Nid oes clinigau rheolaidd ac ymddengys fod y gwasanaeth yn ddi-drefn.

4.9.6 Nid oes byth unrhyw welliant mewn presenoldeb mewn cyfarfodydd ac mae llawer yn cael eu canslo ar rybudd byr iawn.

4.9.7 Mae'r Uned Sefydlu wedi symud eto ers adroddiad y llynedd ac unwaith eto nid oes ystafell ar gael i'r Samariaid gyflwyno hyfforddiant. Nid oes unrhyw gyfleusterau ar hyn o bryd ar yr adain hon i swyddogion gynnal cyfweiliadau lle caiff materion personol cyfrinachol eu codi.

4.9.8 Er gwaethaf sicrwydd y bydd byrddau adolygu'n cael eu cynnal bob amser am 10.00 o'r gloch, nid yw hyn yn digwydd bob amser. Nid yw'r Bwrdd yn cael gwybod bob amser am y newid amser na'r rheswm drosto.

ADRAN 5 – YR ADRODDIAD

CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

5.1.1 Cynhelir cyfarfodydd cydraddoldeb pob pedair i chwe wythnos ac fe'u cadeirir gan naill ai'r Dirprwy Lywodraethwr neu ei gynrychiolydd. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r Bwrdd Monitro Annibynnol, Arlwyo, Gofal Iechyd, Dysgu a Sgiliau a chynrychiolwr o blith y carcharorion o bob adain i'r cyfarfodydd.

5.1.2 Mae presenoldeb gwael yn y cyfarfodydd hyn wedi achosi pryderon. Mae'n awgrymu nad oes llawer o werth i'r cyfarfodydd hyn ac nad yw'r uwch reolwyr yn eu hystyried fel blaenoriaeth. Mae llawer o bwyntiau a godir yn yr agendâu yn gorfod cael eu gohirio'n aml i'r cyfarfod nesaf.

5.1.3 Mae rhai datblygiadau cadarnhaol wedi bod yn ystod cyfnod paratoi'r adroddiad. Mae llyfrau llafar yn cael eu darparu yn y llyfrgell i garcharorion gydag anawsterau dysgu. Mae bwydlenni llun yn cael eu darparu ynghyd â blychau arbennig i garcharorion Mwslimaidd eu defnyddio yn ystod Ramadan. Mae cyfarwyddiadau cynefino ar gyfer y gampfa ac ar gyfer codi a chario am gael eu hargraffu mewn ieithoedd eraill. Mae digwyddiadau diwylliannol hefyd yn cael eu hyrwyddo trwy'r system deledu mewn celloedd.

5.1.4 Unwaith eto, mae Age Cymru wedi darparu cotiau a hetiau i garcharorion hŷn eu gwisgo yn ystod misoedd y gaeaf.

5.1.5 Mae Imam bellach yn ymweld yn wythnosol ac mae mwy o gysylltiadau wedi cael eu creu gyda'r gymuned Hindw a'r gymuned Sikh.

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

5.2.1 Mae'r adran wedi cael blwyddyn dda o safbwynt perfformiad yn erbyn cefndir o newid cenedlaethol parhaus gyda'r Ffyrdd Newydd o Weithio. Cyrhaeddodd yr adran 88% o'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

5.2.2 Cafodd Cynllun Darllen Ymddiriedolaeth Shannon ei roi ar waith ym mis Medi 2013 er mwyn sicrhau bod y Cynllun Darllen ar gael i bob carcharor nad yw'n gallu darllen. Trwy waith caled gwirfoddolwyr ymroddgar mae'r Cynllun yn datblygu'n dda. Mae bellach 12 o garcharorion sy'n fentoriaid hyfforddedig ar draws y prif adrannau. Mae swyddog carchar wedi cael ei enwebu fel arweinydd i gefnogi'r cynllun ar yr adrannau. Dywed y carcharorion fod hyn yn ddefnyddiol iawn wrth hyrwyddo'u dysgu.

5.2.3 Mae Cyrsiau Dysgu o Bell a'r Brifysgol Agored wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Oherwydd proffil y carchar, cyfyngedig yw'r math hwn o ddysgu fel arfer. Fodd bynnag, mae bellach 5 o garcharorion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gyrsiau Astudiaethau Amgylcheddol, Tystysgrif mewn Cwnsela ac Astudiaethau Busnes.

5.2.4 Cafodd y system Campws Rhithiol hybrid newydd wedi'i diweddarau ei gosod ym mis Mawrth 2014. Bydd hyn yn gwella'r broses o ailsefydlu i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau, gan y bydd yn eu galluogi i chwilio am swyddi yn eu cymuned mewn amser real. Mae'r 'system ryngrwyd gaeedig' yn eu galluogi i gael at swyddi gwag yn y Ganolfan Waith drwy drydydd parti. Bydd rhaglen e-ddysgu'n helpu carcharorion i gynhyrchu CV proffesiynol.

5.2.5 Agorwyd Siop Argraffu newydd yn yr adran dysgu a sgiliau ym mis Mawrth gyda chyfrifiaduron Apple Mac pwerus ynddi. Bydd yn hyfforddi carcharorion hyd at Lefel 2 mewn Cyhoeddi Pen Desg gan ddefnyddio amrywiaeth o raglenni meddalwedd a gydnabyddir gan y diwydiant, megis Photoshop, In-design ac Illustrator. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn gyda'r Undeb Credyd i gynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd i garcharorion sydd â diddordeb er mwyn eu hannog hwy i ymuno â'r cynllun cynilo. Gellir cynhyrchu posteri i lefel broffesiynol ar gyfer y sefydliad. Mae cyfle i wneud cysylltiadau â chyflogwyr lleol i ddatblygu prosiectau menter bach.

5.2.6 Mae'r adran wedi cyfrannu at Brosiect Cynaliadwyedd Ewropeaidd dros y 2 flynedd ddiwethaf, sydd wedi arwain at wob'r 'Aur' yn cael ei rhoi i'r carchar. Cafodd yr adran ei chanmol am gyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth Ynni i garcharorion ac am godi ymwybyddiaeth drwy'r carchar. Gobeithir parhau â'r gwaith a wnaed hyd yma.

5.2.7 Dyfarnwyd Gradd A i'r adran yn Archwiliad blynyddol Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain.

5.2.8 Mae'r gweithdai'n cynyddu lleoedd gweithgareddau yn unol â'r Ffyrdd Newydd o Weithio. Mae contractau allanol wrthi'n cael eu cwblhau gyda Chyngor Dinas Abertawe am brosiectau ailgylchu i ddod â gwaith i'r carchar. Mae gweithdy beiciau'n hyfforddi carcharorion i adnewyddu beiciau a gyflenwir gan y cyngor lleol. Unwaith y cânt eu hadnewyddu, mae'r carchar yn derbyn canran o'r costau adwerthu. Mae Carchar Ei Mawrhydi Abertawe ar hyn y bryd yn cynnig cymwysterau NVQ mewn Gweithrediadau Perfformiad Gweithgynyrchu, Gweithrediadau Golchdy a Lefel 1 City and Guilds mewn Gweithgareddau Ailgylchu. Y gobaith yw ehangu cymwysterau pellach wrth i fwy o weithgaredd gael ei roi ar waith.

5.2.9 Roedd ymgyrch recriwtio ar gyfer Hyfforddwr BIC newydd yn llwyddiannus. Bydd hyfforddiant glanhau achrededig yn ailgychwyn ym mis Gorffennaf 2014.

5.2.10 Caiff cwrs hyfforddi cynhwysfawr mewn Iechyd a Diogelwch Lefel 1 ei gyflwyno dros ddiwrnod a hanner i bob carcharor cyn bod gweithgaredd yn cael ei ddyrannu iddo yn y carchar.

GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

5.3.1 Rydym wedi cael, trwy benodiad newydd mewnol, Pennaeth Gofal Iechyd, Marie Phillips. Penodiad dros dro yn unig yw hyn, dim ond tan y bydd yr ailstrwythuro 'Adolygiad Gofal Iechyd' wedi cael ei gwblhau.

Caiff Gofal Iechyd o ddydd i ddydd ei ddarparu gan:

- 1 Band 8A
- 1 Band 7
- 2 Band 6

11 Band 5

Mae dau o'r rhain ar ddyletswydd nos, un parhaol ac un dros dro.

Mae gofal iechyd yn dal i weithredu heb ddefnyddio staff asiantaeth.

5.3.2 Rhaid nodi nad oes unrhyw gyfleuster i gleifion mewnol yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe. Petai'r angen yn codi, mae'r carchar yn gallu defnyddio dau ysbyty lleol y Bwrdd Iechyd, Treforys a Singleton. Mae hefyd gyfleuster cleifion mewnol i garcharorion yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerdydd. Mae ymweliad dyddiol gan ymarferydd cyffredinol.

5.3.3 Er bod carcharorion yn gallu cael at ddeintyddion, podiatryddion, optegwyr a gwasanaethau seiciatrig, gall fod amserau aros hir am ofal deintyddol a gofal llygaid. Ymddengys fod ymweliadau'r optegydd braidd yn ad hoc ac ymddengys eu bod yn cael eu penderfynu gan y nifer o garcharorion ar y rhestr aros.

5.3.4 Mae cysylltiadau rhagorol gyda'r Nyrs ar gyfer y Digartref, a'r Nyrs Allgymorth Iechyd Meddwl a Phobl Agored i Niwed a Letyir, ac â'r meddygon ym meddygfa'r Stryd Fawr, lle gall carcharorion heb gartref sefydlog fynd ar ôl cael eu rhyddhau. Mae'r Nyrs Allgymorth Iechyd Meddwl a Phobl Agored i Niwed a Letyir yn eistedd hefyd ar Fwrdd Partneriaeth Iechyd y Carchar. Bydd staff gofal iechyd yn cydgysylltu â'r tîm digartref cyn rhyddhau, gan eu hysbysu o driniaethau a meddyginiaeth y carcharor a ryddheir, ac mae hyn wedi profi i fod yn gam cadarnhaol iawn yn y mwyafrif o achosion.

5.3.5 Hefyd ar gael mae gwasanaeth ymarferydd cyffredinol y tu allan i oriau. Mae ymweliadau rheolaidd gan arbenigwyr iechyd rhywiol. Mae amserau rhestrau aros yn debyg i'r hyn yw yn y gymuned, ond gall amrywio o ran amser gan ddibynnu ar yr arbenigedd yr atgyfeirir ato.

5.3.6 Gan gadw mewn cof nad oes unrhyw gyfleuster cleifion mewnol i garcharorion yng Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe, ymdrinir yn effeithlon ac yn effeithiol â materion gofal iechyd gan bawb sy'n ymwneud â gofal iechyd.

GWEITHGAREDD BUDDIOL

5.4.1 Yn ogystal â gwaith sydd ar gael o dan y cynlluniau dysgu a sgiliau, mae carcharorion yn cyflawni gwaith buddiol mewn amryw o feysydd. Gallant weithio yn y Gegin ar ôl cwrs pythefnos mewn hylendid sylfaenol. Gallant fynd ymlaen hefyd i ennill Lefel 1 a 2 NVQ. Maent yn cael eu cyflogi hefyd yn y Gyfnewidfa Ddillad.

5.4.2 Ar hyn o bryd mae:

30 yn cael eu cyflogi yn y gweithdy Gwnïo [yn llawn-amser ac yn rhan-amser]. Ar hyn o bryd mae 160 o garcharorion wedi cael eu hyfforddi i weithio yn y maes hwn lle caiff trasiwtiau a dilladau o liain gwyn eu gwneud i'r Gwasanaeth Carchardai.

Mae 13 yn cael eu cyflogi yn y Golchdy [llawn-amser a rhan-amser]

Mae 15 yn cael eu cyflogi yn y Siop Feiciau [llawn-amser]

Mae 33 yn cael eu cyflogi mewn ailgylchu matresi [llawn-amser a rhan-amser]

Mae 24 yn cael eu cyflogi mewn ailgylchu tapiau casèt [llawn-amser a rhan-amser]

Mae 20 yn cael eu cyflogi mewn gwaith cyfosod
amser]

[llawn-amser a rhan-

Caiff holl wastraff y carchar ei ddioli gan garcharorion i'w ailgylchu a'i gywasgu.

5.4.3 Mae ymdrechion mawr wedi cael eu gwneud i sicrhau bod carcharorion yn Ngharchar Ei Mawrhydi Abertawe'n cael eu cyflogi i ddiben buddiol. Fel Bwrdd, cydnabyddwn yr ymdrechion hyn a chydabyddwn yr heriau sy'n gysylltiedig â hyn.

AILSEFYDLU

5.5.1 Nod y tîm ailsefydlu yw sicrhau bod pob carcharor yn cael eu paratoi'n addas ar gyfer eu rhyddhau ac wrth wneud hynny, leihau ymddygiad aildroseddol. Mae colli'r Prosiect Caplaniaeth Cymunedol wedi cael effaith sylweddol ar ailsefydlu. Roeddent yn chwarae rhan hanfodol wrth gael gwaith i garcharorion pan oeddent yn cael eu rhyddhau, yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol i'r rheini oedd yn gofyn amdano. Mae'r targedau presennol ar gyfer cyflogaeth ar adeg rhyddhau yn cael eu cyrraedd, ac mae'r tîm yn cyd-drafod ag amryw o grwpiau sy'n darparu tai cymdeithasol. Mae gwybodaeth ar gael hefyd ynghylch sut i gael amrywiaeth o fudd-daliadau.

5.5.2 Yn anffodus, mae'r cyrsiau rheoli dichter wedi cael eu colli ac mae hyn o ganlyniad i ailstrwythuro cenedlaethol.

5.5.3 Mae prosiect a ariennir gan y loteri – PACT Cymru, sydd bron ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf – yn treialu dau gwrs yn y carchar. O fis Medi ymlaen bydd cwrs perthynas o'r enw 'O fewn fy nghyrraedd' yn cychwyn ynghyd â Rhaglen Cymorth i Fyfyrrwyr. Mae'r prosiect PACT wedi ei dargedu at garcharorion yn y grŵp oedran 18-25. Mae'r tîm wedi cynnal amryw o ddigwyddiadau i asiantaethau allanol, a'u gobaith yw y byddant yn arwain at well cymorth a dealltwriaeth o garcharorion.

5.5.4 Mae dyddiau ar themâu teuluol wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac mae mentoriaid hyfforddedig gwirfoddol ar waith yn goruchwyllo'r lle chwarae yn ystod ymweliadau. Cynhelir ymweliadau teuluol cyn rhyddhau ac mae cwrs o'r enw 'Storybook Dads' yn cael ei redeg; un o amcanion y cwrs yw ailadeiladu a gwella perthynas.

CARCHARU DIOGELACH

5.6.1 Cafodd Safer Custody Management eu cymryd drosodd gan dîm newydd ar 31 Mawrth 2014.

5.6.2 Cynhaliwyd Archwiliad Carcharu Diogelach ym mis Hydref 2013 gyda sgôr o Wyrdd/Ambr. Roedd ansawdd rhai o'r dogfennau ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm) yn is na'r safon ofynnol, a achosodd ostyngiad yn y sgôr gyffredinol.

5.6.3 Mae'r Samariaid yn dal i ymweld â'r carchar yn wythnosol er mwyn ôl-drafod / goruchwyllo gyda'r Gwrandawyr ac yn mynd i'r Cyfarfodydd Carcharu Diogelach deufisol.

5.6.4 Mae 7 o Wrandawyr ar hyn o bryd. Mae'r Samariaid wrthi'n rhedeg cwrs Gwrandawyr ar hyn o bryd a gobeithir y bydd eu niferoedd yn cynyddu'n sylweddol. Mae problemau'n dal i gael eu profi gan Wrandawyr, gan na ellir cael hyd i le addas ar gyfer cyfweiliadau preifat. Mae'r broblem hon wedi bod yn mynd ymlaen ers cryn dipyn o amser.

5.6.5 Yn ystod y cyfnod Mai 2013 i Ebrill 2014 agorwyd cyfanswm o 238 o ddogfennau ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm), sy'n debyg i'r niferoedd a oedd yn 2012.

5.6.6 Yn y flwyddyn hon hyd yma, cofnodwyd un farwolaeth yn y ddalfa.

5.6.7 Cynhelir cyfarfodydd yn ddeufisol, ac mae'r presenoldeb yn amrywio'n fawr gyda phresenoldeb cyfartalog o 8.8 am y flwyddyn.

CADW AR WAHÂN, GWAHANU A GOFAL

5.7.1 Y rhan lle cedwir carcharorion ar wahân yw'r rhan o'r carchar yr ymwelir amlaf ag ef gan aelodau'r Bwrdd ac a gaiff ei fonitro fwyaf ganddynt. Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn ymweld â'r rhan hon o'r Carchar bob tro y maent yn dod i Garchar Ei Mawrhydi Abertawe.

5.7.2 Mae'n bleser nodi bod yr un aelodau o staff yn cael eu cadw yn y rhan hwn ac mae hyn yn dod â pharhad i'r adran. Mae'r staff yn brofiadol iawn ac maent yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gallu gweld carcharorion a gedwir ar wahân pan ofynnant am hynny. Mae'r gwaith papur a chofnodion carcharorion ar gael yn hawdd i aelodau'r Bwrdd ar gais.

5.7.3 Er bod y Bwrdd yn cael gwybod fel arfer am adolygiadau, nid yw hyn yn digwydd bob amser ac mae hwn yn faes y teimla'r Bwrdd y gellid ac y dylid ei wella. Yn yr un modd, mae adolygiadau'n aml yn cael eu haildrefnu ar fyr rybudd neu heb rybudd o gwbl. Nid oes unrhyw welliant wedi ei nodi ers adroddiad y flwyddyn flaenorol.

5.7.4 Bu gostyngiad mawr o 43% yn y defnydd o'r Gell Ddiogel o gymharu â'r flwyddyn gynt ac mae hyn i'w ganmol.

5.7.5 Clywir dyfarniadau hefyd yn y rhan hon o'r sefydliad a nodir bod cynnydd mawr o 31% wedi bod mewn dyfarniadau o gymharu â'r flwyddyn gynt. Yn ogystal, cynyddodd gwaith y Dyfarnwr Annibynnol yn sylweddol (24%) ar y flwyddyn flaenorol. Er bod hyn efallai'n dueddiad sy'n peri pryder, noda'r Bwrdd ei fod efallai'n gymesur â chynnydd o 21% ar y flwyddyn flaenorol mewn carcharorion sy'n cael eu cadw ar wahân (i fyny o 139 i 176)

5.7.6 Bu cynnydd o 26% yn y defnydd o rym ar y flwyddyn gynt, a gellir sicrhau'r Gweinidog y bydd y Bwrdd yn monitro hyn yn ofalus iawn dros y flwyddyn i ddod.

DYFARNIADAU

5.7.7 Mae holl Aelodau'r Bwrdd yn manteisio ar y cyfle i eistedd a gwrandao ar Ddyfarniadau Llywodraethwyr yn ystod eu hymweliadau rota pryd bynnag y bydd hyn yn bosibl. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn gwirio bod y gwrandawliadau'n cael eu cynnal yn deg ac yn gryno gyda'r troseddwr yn deall pob agwedd o'r gweithdrefnau. Mae'r Bwrdd yn sicrhau hefyd fod gwrandawliadau'n cael eu dosbarthu fel eu bod yn cael eu cynnal gan bob Gradd o Lywodraethwr, ac adlewyrchir hyn yn y ffaith fod 7 gwahanol lywodraethwr wedi llywyddu dyfarniadau yn 2013.

5.7.8 Mae cyfanswm nifer y cyhuddiadau a ddygwyd am droseddau yn erbyn rheolau'r carchar wedi parhau i ddringo yn 2013 gan ddangos cyfanswm cynnydd cyffredinol o 89% yn y 5 mlynedd ddiwethaf.

5.7.9 Cafodd 736 o gyhuddiadau eu dwyn yn erbyn carcharorion yn ystod y flwyddyn. Yn 161 (22%) o'r holl achosion barnwyd nad oedd sail i'r cyhuddiadau wrth eu hadolygu ymhellach, a chawsant eu gollwng o ganlyniad. Mewn 13 (2%) o achosion, roedd y carcharor wedi cael ei ryddhau, heb ddychwelyd o'r llys, neu wedi cael ei drosglwyddo i garchar arall. Yn 187 (25%) o'r achosion mwy difrifol, cyfeiriwyd y dyfarniad at Ddyfarnwr Annibynnol Allanol/Barnwr Ardal, a barnwyd bod 12 (2%) o'r troseddau yn ddigon difrifol i gael eu cyfeirio'n allanol i'r Heddlu.

5.7.10 Ymdriniwyd â chyfanswm o tua 75% o'r dyfarniadau a wrandawyd gan Lywodraethwyr y Carchar a 25% gan farnwr allanol gyda'r dyfarniadau'n golygu amrywiaeth o gosbau o golli brentiau ac enillion carchar am gamymddwyn llai, i golli cymdeithasu a dyddiau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y ddedfryd am gamymddwyn mwy difrifol.

Mae archwiliad manwl o gofnodion dyfarnu'n datgelu'r dyraniad canlynol o droseddau.

| | |
|-----------------------------------|-----|
| • Ymosod | 30% |
| • Gwrthod cydymffurfio | 22% |
| • Cysylltiedig â chyffuriau | 21% |
| • Difrodi eiddo | 8% |
| • Tramgwydd PSO 4400/Aflonyddu | 6% |
| • Meddiant heb ganiatâd | 6% |
| • Ffôn symudol / pin | 4% |
| • Cysylltiedig ag alcohol | 2% |
| • Mewn lle gwaharddedig | 1% |
| • Hiliaeth | <1% |

Dengys dadansoddiad o droseddau yn ôl ethnigrwydd ei fod yn gyffredinol gymesur â dosbarthiad ethnig poblogaeth y carchar.

GWASANAETHAU PRESWYL

5.8.1 Mae Abertawe'n dal i fod yn un o'r carchardai mwyaf gorlawn ym Mhrydain. Mae'r Bwrdd ers llawer blwyddyn wedi mynegi siom gyda'r sefyllfa hon, ac mae'n peri gofid inni orfod adrodd nad oes unrhyw welliant y flwyddyn hon. Cafodd y carchar ei gynllunio i ddal 219 o garcharorion ac mae'n dal hyd at 455 ar hyn o bryd. Ychydig iawn o gelloedd sengl sydd, ac mae cyfleusterau ar flochiau'r celloedd yn ddiffygiol yn anffodus.

5.8.2 Y flwyddyn hon mae'r Gwasanaethau Arlwygo wedi cyflwyno bwydlen i ddewis ohoni ymlaen llaw ar gyfer pob pryd. Mae'r fwydlen amrywiol yn cynnwys dewisiadau llysiuol, figan a Halal.

5.8.3 Mae'n bleser adrodd bod y Gegin unwaith eto wedi bod yn llwyddiannus wrth gadw ei Gradd Hylendid Pum Seren a ddyfarnwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd Abertawe.

5.8.4 Mae'r Adran wedi cynnal tri arolwg er mwyn cael adborth ar ansawdd a dewis y bwyd, sydd wedi cael ei ddefnyddio i wella bwydlenni ac arferion lle bynnag bo hynny'n bosibl. Un enghraifft oedd cyflwyno prydau "thema" arbennig.

5.8.5 Dylid llongyfarch y Rheolwr Arlwygo a'i staff ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, yn enwedig o gofio'r rheolaeth dynn ar gyllidebau y maent yn ei hwynebu. Nodir bod Sara Payne (NOMS Cymru), ar ei hymweliad diweddar â Charchar Abertawe yn canmol safon y bwyd a ddarparwyd.

5.8.6 Mae'r adran waith wedi bod yn ymwneud â nifer o brosiectau dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys goruchwyllo contractwyr allanol, cyflawni gwelliannau a chynnal a chadw cyffredinol o fewn y sefydliad.

5.8.7 Cafodd yr holl waith, gan gynnwys gwella'r gwaith cerrig a ffenestri ar du blaen y carchar, ei gwblhau yn gynnar ym mis Gorffennaf, ac fe'i gwnaed i safon uchel iawn.

5.8.8 Yn yr ystafell beiriannau cwblhawyd yr holl waith o osod platiau gwres newydd sy'n darparu dŵr poeth i bob adain a'r swyddfeydd gweinyddol.

5.8.9 Mae amryw o brosiectau arfaethedig ar fin cychwyn yn yr wythnosau nesaf, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Ailosod lloriau yn y brif gegin.
- Adnewyddu cawodydd yn adain A.
- Gwella'r system teledu cylch cyfyng yn neuadd yr ymweliadau.
- Rhoi to newydd o wydr ffibr i'r gweithdy.
- Lle newydd i ddal y generadur er mwyn cael llai o sŵn a chynnal a chadw cyffredinol.

- Uned ychwanegol o 59 o welyau gyda chyfleusterau i garcharorion anabl.

5.9.0 Mae arwyddion Swyddfa Glir wedi cael eu gosod fel bo'n addas drwy'r carchar ar ôl sylwi bod drysau tân yn cael eu dal yn agored.

5.9.1 Ar 1 Medi 2013 cyflawnwyd cylch newydd o asesiadau risg tân.

5.9.2 Penderfynwyd rhoi'r gorau i ddefnyddio'r term "false alarm" ar alwadau radio a'i ddisodli gan y gair "Alarm" yn cael ei ddilyn gan "All clear".

5.9.3 Ers mis Ionawr eleni, mae 41 o alwadau larwm wedi cael eu gwneud o gymharu â 49 drwy'r llynedd i gyd. Caiff pob larwm tân ei phrofi'n wythnosol gan y Swyddog Diogelwch Tân.

5.9.4 Mae 93% o staff Carchar Ei Mawrhydi Abertawe wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Tân. Mae 75% o'r staff wedi derbyn hyfforddiant mewn defnyddio cyflau tân.

5.9.5 Er bod camau amlwg yn cael eu cymryd i sicrhau bod Iechyd a Diogelwch o'r pwys mwyaf, a'r hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei ddarparu, mae'r Bwrdd yn siomedig fod y cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch misol yn cael eu canslo'n aml ar rybudd byr iawn.

ADRAN 6 MEYSYDD ERAILL O WAITH Y CARCHAR

DERBYN A SEFYDLU

6.1.1 Caiff carcharorion, pan gyrhaeddant, eu gweld gan aelod o'r Tîm Gofal Iechyd cyn gadael yr Ardal Dderbyn. Mae hyn yn sicrhau bod carcharorion sydd â phroblemau iechyd a/neu gyffuriau'n cael eu hadnabod a chymorth addas yn cael ei hwyluso. Mae cyfleusterau cawod ar gael.

6.1.2 Mae gan yr Ardal Dderbyn amrywiaeth helaeth o bosteri ar gael, mewn amrywiol ieithoedd i helpu carcharorion i ddeall y system. Mae cyfleusterau cyfieithu dros y ffôn hefyd ar gael. Yn ogystal, mae Gwrandawyr ar gael yn yr Ardal Dderbyn o 1630 ac yn ystod y gyda'r nosau sy'n cymysgu'n anffurfiol â charcharorion newydd i roi sylw i unrhyw bryderon. Mae carcharorion sy'n cyrraedd cyn hyn yn gorfod gofyn am wasanaethau Gwrandawr a bydd eu dymuniadau'n cael eu gwireddu cyn belled â bod hynny'n ymarferol.

6.1.3 Ymddengys fod lefelau staffio yn dderbyniol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon fod newidiadau mewn trefniadau staffio, lle mae tîm bach, ymroddgar o staff wedi cael eu disodli gan gronfa fwy, a mwy cyffredinol o staff, wedi arwain at leihad mewn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â'r ffaith fod ar staff angen cyfnod o hyfforddi dwys er mwyn dod yn gwbl gyfarwydd â swyddogaeth lawn cyfrifoldebau gweithio mewn Sefydlu. Mae cronfa fwy yn golygu nad yw staff yn derbyn yr hyfforddiant dwys hwn nac yn derbyn profiad addas yn y gwaith gan nad ydynt yn treulio digon o amser yn yr Uned i wneud hynny.

6.1.4 Mewn blynyddoedd a fu roedd y Bwrdd wedi codi pryderon ynghylch y ffaith fod carcharorion yn cyrraedd yn hwyr o lysoedd ymhell i ffwrdd, oherwydd anallu sefydliadau nes atynt i'w cymryd. Mae'r Bwrdd yn falch o nodi fod y sefyllfa hon wedi gwella, yn bennaf oherwydd gwaith Gwasanaeth Tywys y Carchar, ond mae Abertawe'n dal i gymryd carcharorion o'r tu allan i'r ardal yn hwyr i'r dydd. Ymddengys fod gan garchardai eraill gyfundrefnau cloi'r drysau sy'n golygu nad ydynt yn cymryd carcharorion ar ôl adegau penodol o'r dydd. Nid ymddengys fod Abertawe'n gweithredu cyfundrefn o'r fath.

6.1.5 Ar ôl gadael y Dderbynfa, caiff carcharorion eu lleoli ar y cychwyn ar yr Uned Noson Gyntaf, sydd eleni wedi cael ei symud i Adain A1. Yn anffodus, nid yw cyfleusterau ar yr Uned hon o'r safon a oedd ar gael gynt. Mae'r gofod swyddfa'n gyfyngedig, gyda dim ond un derfynell gyfrifiadur ar gael i'r staff. Nid oes unrhyw Ystafelloedd Cyfweld, ac o'r herwydd nid oes fawr o breifatrwydd i staff a charcharorion gyd-drafod. Er gwaethaf cyfyngiadau'r cyfleusterau, ymddengys fod gan y staff berthynas weithio ragorol gyda charcharorion a'u bod yn treulio amser gyda'r newydd ddyfodiaid hyd nes y byddant wedi setlo i fywyd carchar.

6.1.6 Mae carcharorion yn derbyn pecyn gwybodaeth – “Derbyn a'r Uned Noson Gyntaf” sy'n esbonio nifer o bolisiâu a chytundebau y mae'n rhaid i garcharorion gadw atynt yn ystod eu harhosiad.

6.1.7 Mae'r Adain Lleihau Cyffuriau wedi bod yn weithredol ers tua dwy flynedd ac mae'n llawn haeddu'r enw da sydd ganddi am y gwaith y mae'n ei wneud a chaiff ei hystyried yn esiampl i garchardai eraill. Yn anffodus, mae prinder staff yn ddiweddar, yn enwedig ymysg Tiwtoriaid Grŵp, wedi lleihau'r nifer o sesiynau grŵp, sydd wedi cael effaith niweidiol ar waith yr Uned. Gobeithir y bydd y sefyllfa hon yn gwella.

CAPLANIAETH

6.2.1 Mae'r Caplan yn arwain tîm brwdfrydig. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer pob ffydd. Mae cysylltiadau ag amrywiaeth o asiantaethau sy'n cynnig cymorth i garcharorion tra byddant yn y ddalfa, ac ar ôl cael eu rhyddhau, yn dal i gael eu datblygu.

6.2.2 Mae mudiadau megis Victory Outreach, Hope Farm, Zac`s Place etc yn ymateb yn gadarnhaol i wahoddiadau i gymryd rhan mewn addoli ar y Sul. Mae'r ymweliadau hyn yn creu cyfleoedd i'r grwpiau hyn ffurfio cysylltiadau ag unigolion sy'n ceisio cymorth penodol ar ôl cael eu rhyddhau.

6.2.3 Mae'r tîm caplaniaeth yn hwyluso cyrsiau fel "Sycamore Tree" ac mae'r rhain yn dal i ddenu presenoldeb da iawn.

CAPLANIAETH GYMUNEDOL

6.3 Gofid mawr i ni yw adrodd bod y prosiect Caplaniaeth Gymunedol ar fin dod i ben yn Abertawe ar 30 Mehefin 2014. Gobeithir y bydd y prosiect yn ailgychwyn yn y dyfodol ac mae ymdrechion clodwiw'n cael eu gwneud i sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect gwerthfawr hwn.

ADRAN 7 GWAITH Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL YN ABERTAWE

7.1.1 Cychwynnodd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Swyddog Hyfforddi ar eu swyddi ym mis Ionawr 2014. Mae'r Bwrdd eleni wedi cynnal ymgyrch recriwtio i sicrhau y bydd yn gweithredu yn ei lawn nerth yn 2014. Mae'r sefyllfa wedi codi o ganlyniad i weithredu cod ymarfer diweddar Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, sy'n ymwneud â hyd gwasanaeth ar Gyrrff Cyhoeddus.

AELODAU'R BWRDD

| | |
|--------------------------|--------------------------------|
| Cadeirydd | Mrs K Andrew YH |
| Is-gadeirydd | Mr P Dwan YH |
| Swyddog Datblygu'r Bwrdd | Mr M Beake |
| | Mr P Armstrong |
| | Mr P Baker |
| | Mr D Bentley Miller YH |
| | Mr B Francis |
| | Mr A McGetrick |
| | Mr B Maskell YH |
| | Dr Y B Mathur |
| | Mrs J Michael |
| | Mr G Morgan |
| | Mrs J Osborne YH |
| | Mr P Owen YH |
| | Mr J Pile YH |
| | Mr B Thompson |
| | Mr C Walters |
| Clerc i'r Bwrdd | Mr Emeil Khalil/Ms Ceri Stokoe |

CEISIADAU I'R BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

7.1.2 Mae gan garcharorion hawl i gyflwyno cwynion i'r Bwrdd Monitro Annibynnol a gallant ofyn am gael eu cyfeirio at y Bwrdd llawn. Yn ystod cyfnod yr adroddiad nid oes unrhyw geisiadau wedi bod i'r Bwrdd llawn. Mae 31 o geisiadau wedi bod i'r Bwrdd Monitro Annibynnol, sy'n llai na'r llynedd, ond yn dal yn hynod o isel ac yn adlewyrchu ymroddiad staff yn Abertawe i ymdrin â'r mwyafrif o broblemau a godir gan garcharorion. Yn ogystal â cheisiadau ysgrifenedig, mae aelodau'r Bwrdd yn ymdrin â cheisiadau llafar ar eu hymweliad rota neu ar unrhyw adeg arall y maent yn y Carchar. Mae gan y Bwrdd flychau wedi eu nodi a'u cloi ar gyfer y Bwrdd Monitro Annibynnol ar bob adain a chaiff y rhain eu gwagio'n ddyddiol yn ystod yr wythnos waith.

Mae'r ceisiadau wedi cael eu dadansoddi yn ôl categori

| Categori | 07/08 | 08/09 | 09/10 | 10/11 | 11/12 | 12/13 | 13/14 |
|--------------------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|
| Bwyd | 3 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 | 6 |
| Eiddo | 4 | 0 | 4 | 0 | 4 | 1 | 7 |
| Meddygol | 14 | 6 | 13 | 4 | 8 | 8 | 11 |
| Ymweliadau | 0 | 5 | 4 | 4 | 6 | 3 | 1 |
| Trosglwyddo | 5 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 2 |
| Dyfarniadau | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Post | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Amodau celloedd | 3 | 1 | | 1 | 2 | 2 | 1 |
| Dedfryd | 5 | 5 | 4 | 0 | 1 | 0 | 3 |
| Cam-drin hiliol | 3 | 0 | | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Bwlio | 1 | 3 | 2 | 0 | 4 | 1 | 3 |
| Amrywiol | 18 | 17 | 11 | 9 | 6 | 10 | 14 |
| CYFANSWM | 56 | 41 | 43 | 22 | 33 | 31 | 46 |

7.1.3 PRESENOLDEB YNG NGHYFARFODYDD Y BWRDD

Aeth holl aelodau'r Bwrdd i'r nifer gofynnol o gyfarfodydd misol y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn.

7.1.4. YSTADEGAU'R BWRDD

| | |
|--|-----|
| Y cwota a argymhellir o Aelodau'r Bwrdd | 12 |
| Nifer o aelodau ar gychwyn y cyfnod yr adroddir arno | 17 |
| Nifer o aelodau ar ddiwedd y cyfnod yr adroddir arno | 12 |
| Nifer o aelodau'n gadael o fewn y cyfnod yr adroddir arno | 5 |
| Cyfanswm nifer o ymweliadau â'r Carchar (ac eithrio Cyfarfodydd Misol) | 240 |
| Cyfanswm nifer o geisiadau ysgrifenedig a dderbyniwyd | 46 |